# YR YSTWYLL 7

**LEFITICUS 19:1-2, 9-18; SALM 119:33-40;**
**1 CORINTHIAID 3:10-11, 16-23; MATHEW 5:38-48**

● **Gweddi agoriadol**
Yn ein cwrdd â'n gilydd,
bydd di yr heddwch rhyngom,
y cariad sy'n ein hamgylchynu
a'r llawenydd sy'n llifo o'n calon.

Yn ein hymadael â'n gilydd,
boed i'r cariad sydd ynom
a'r heddwch sydd rhyngom
fod y fendith a roddwn.

● **Moliant**
Y bywyd y'n gelwir i'w fyw
yw'r bywyd rwyt ti'n ei ddatguddio
yn dy air –
i garu fel y'n cerir,
i roi fel y derbyniwn
ac i fendithio fel y'n bendithir.

Y bywyd y'n gelwir i'w fyw
yw bywyd o ufudd-dod
i'r un a roddodd bopeth,
er mwyn i ni wybod
beth yw gwir ystyr aberth,
Mab Duw,
yr un

gyda'r Tad a'r Ysbryd,
yn Drindod sanctaidd
y mae pob clod yn ddyledus iddo.

● **Cyffes**
Fe'n gelwi i glosio
at ein cymdogion,
rhai ohonynt
na fyddem yn eu dewis:
pobl anodd,
pobl drafferthus,
pobl ddig,
pobl doredig,
pobl heb obaith.
Wedyn fe gofiwn
mai dyma'r bobl
rwyt ti yn rhoi dy amser a'th gariad iddyn nhw.

Maddau ein harafwch
i ddilyn y llwybr a gerddaist ti
pan mae'n anghyfforddus i ni.
Rho i ni ffydd sy'n ddiffuant,
ac yn ufudd i'th air.
Trwy Iesu Grist yn unig,
sy'n ein caru ni hyd yn oed –
y rheini sy'n peri poen iddo –
y gofynnwn y cwbl.

## ● Diolch

Diolch i ti am y rhai
fu'n gymdogion da i ni
pan oeddem mewn angen,
a roddodd o'u hamser ac o'u hunain
i fod yn gysur i ni,
neu a ddwedodd air yn ei bryd
i godi ein blinder.

Diolch i ti am y rhai
a heuodd hadau gobaith
yng ngardd ein calon,
a thrwy eu hanogaeth
alluogodd i ffydd dyfu a blodeuo
ac i ninnau ddatblygu yn bobl
roeddet wastad am i ni fod.

Diolch i ti am gymdogion da.